

CYNGOR CYMUNED LANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 17eg o Ionawr 2017

Presennol: Cyng. Gwilym O. Jones (Cadeirydd)
Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Beryl Salisbury
Cyng. Dyfed Williams

Ymddiheuriadau: Cyng. Gwynfor Lloyd Jones
Cyng. Einir Thomas

1. **Datganiad o ddiddordeb** - Cyng. Gwilym O. Jones a Cyng. Gordon Owen - eitem 3 (Y Neuadd Bentref).
2. **Cofnodion cyfarfod 15fed o Dachwedd 2016**
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Gordon Owen, eilio Cyng. Beryl Salisbury.)
3. **Materion yn codi o'r cofnodion.**
 1. Cae chwarae: - Cyflwynwyd adroddiad G. L. Jones Playgrounds Ltd. ar gyflwr yr offer chwarae a'r arwyneb rwber ond bydd rhaid aros tan y gwanwyn i wneud y gwaith.
 3. Llwybrau: - 'Roedd y gwaith o dorri llwybr troed 8 ac o gwmpas y bont ar lwybr troed 25 heb ei wneud eto.
 3. Neuadd y Pentref: - Adroddwyd bod Mr Hayden Bower wedi cael ei benodi fel gofalwr y Neuadd.
 4. Cofrestru Awtomatig (Automatic Enrolment) - Nodwyd bod cyflog y clerc oedd dan y ffin ar gyfer cofrestru awtomatig ac ni fydd y sefyllfa hynny wedi newid erbyn 1 Chwefror 2017 h.y. y 'Staging date'. - Bydd y clerc yn dilyn y camau priodol i gwblhau'r datganiad o gydymffurfiaeth.
 5. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion: - dim
4. **Deddf Gynllunio Gwlad a Thref -**

32C17P / SCR - Hotel Cymyran Llanfair yn Neubwll - Barn sgrino i gadw 5 bwthyn gwyliau, tair ystafell wely mewn cysylltiad â'r datblygiad parhaus.

32C17N / ENF - Hotel Cymyran, Llanfair-yn-Neubwll - Cais ôl-weithredol i gadw 5 bwthyn gwyliau, tair ystafell wely mewn cysylltiad â'r datblygiad parhaus ynghyd a gwaith cysylltiedig i ledu'r ffordd oddi ar y safle. - Nodwyd nad oedd y dogfennau a gyflwynwyd yn dangos y gwyriad o'r cais gwreiddiol, fodd bynnag, cytunwyd i fynegi pryderon am yifer o ceisiadau ôl-weithredol oedd yn cael eu cyflwyno.

Llofnod.....Cadeirydd.....

CYNGOR CYMUNED LANFAIR YN NEUBWLL

32C144C / VAR - 22 Seland Park, Caergeiliog - Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (12) o ganiatâd cynllunio rhif 32C144A (codi annedd) er mwyn diwygio lleoliad yr annedd sydd wedi ei ganiatau ar y tir tu ôl. - dim gwrthwynebiad.

32C123 Bryn Ednyfed, Caergeiliog - Cais llawn ar gyfer defnyddio'r safle ar gyfer dim mwy na 20 o garafannau ar unrhyw adeg drwy gydol y flwyddyn ynghyd â cynnudd o'r storfa dros y gaeaf i ddim mwy na 10 carafan carafan - dim gwrthwynebiad.

5. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn

1. Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith - nodwyd y diweddariad.
2. Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned:- Cofnodion y Fforwm a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2016 yn cynnwys materion yn codi o'r Pwyllgor Safonau, Cynigion Cyllideb ar gyfer 2017/18, Fforwm Iaith Ynys Môn - Strategaeth Iaith 2016 - 2021 ac Etholiadau Lleol 2017.
3. Arolwg Etholiadol - cytunwyd y byddai'r clerwr yn adrodd ar hwn yn y cyfarfod nesaf.
4. Pwyllgor Safonau - Datgan buddiannau: - Dosbarthwyd nodyn briffio yn esbonio'r gofynion statudol ar aelodau Cyngorau Tref a Chymuned mewn perthynas â datgan a chofrestru diddordeb personol - cadarnhaodd y clerwr y byddai'r gofrestr diddordeb yn cael eu rhoi ar Wefan y Cyngor Cymuned.
5. Nodyn Briffio'r Ombwdsmon - nodyn briffio i aelodau Cyngorau Tref a Chymuned ar newidiadau statudol i'r Côt Ymddygiad, gweler hefyd 7.4.
6. Panel Dewis y Pwyllgor Safonau - hysbysiad ar gyfer swydd wag achlysurol ar gyfer aelod annibynnol ar Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn.
7. Etholiadau Cyngor Cymuned a Thref 2017 - Nodwyd bod angen i'r Cyngor Cymuned roi £ 2,000 o'r neilltu ar gyfer yr etholiadau.

6. Materion Ariannol

Yn y banc ar 17.1. 2017 Cyfrif Cyfredol £9952.69, Cyfrif Cadw £3,921.11

Taliadau i'w gwneud

Cyflog y clerwr (Tachwedd a Rhagfyr)	£356.28	HMRC	£89.08
Neuadd Bentref Caergeiliog (Rent 16/17)	£300		

Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Beryl Salisbury, eilio Cyng. Gordon Owen.)

7. Cyfrifon 2016/17 - Dosbarthwyd copi o'r cyfrifon hyd at 31 Rhagfyr 2016 i Aelodau.

Llofnod.....Cadeirydd.....

Gwariant Adran 137: y Terfyn ar Gyfer 2017-18 - nodwyd bod uchafswm o £ 7.57 am bob etholwr.

8. **Precept 2017/18:** - Trafodwyd cyfrifon 2016/17 a rhagolygon 2017/18 yn fanwl. Wedi cymryd i ystyriaeth y cynnydd ymylol yn y costau ddydd i ddydd, y gwariant a ragwelir ar y cae chwarae, costau tebygol etholiadau 2017 ac anghenion y neuadd bentref cytunwyd i ofyn am archebiant o £ 12,100 ar gyfer 2017/18.
9. **Dogfennau Statudol:** - Dosbarthwyd diweddariad i'r Rheolau Sefydlog cyn eu hystyried yn y cyfarfod nesaf.
10. **Gohebiaeth Eraill:-**
1. Cylchlythyr RHUN AP IORWERTH (Tachwedd 2016):- cyflwynwyd a nodwyd.
 2. Ymgynghoriad ynglŷn â newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol: - cyflwynwyd a nodwyd.
 3. Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru): - cyflwynwyd a nodwyd.
 4. Rheoliadau drafft Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2016 - Cyflwynwyd a nodwyd dogfen ymgynghori ar y Rheoliadau a fyddai'n golygu newidiadau i'r amserlen ar gyfer paratoi a chyhoeddi datganiadau cyrff llywodraeth leol 'o gyfrifon.
 5. Bwletin Gwybodaeth Un Llais Cymru '- cyfarfod 19 Ionawr, 2017 - cyflwynwyd a nodwyd.
11. **Unrhyw fater arall:- dim**
12. **Cyfarfod nesaf 21ain o Chwefror 2017.**